# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 11

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Amrywiol*

### 188 Dehongli adrannau 185 i 187

(1) Yn adrannau 185 i 187—

mae i "carchar" yr ystyr a roddir i "prison" yn Neddf Carchardai 1952 (gweler adran 53(1) o'r Ddeddf honno);

ystyr "llety cadw ieuenctid" ("*youth detention accommodation*") yw—

(a) **[**[F1]gwasanaeth llety diogel (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016);**]**

(b) canolfan hyfforddi ddiogel;

(ba) **[**[F2]coleg diogel;**]**

(c) sefydliad troseddwyr ifanc;

(d) llety sy'n cael ei ddarparu, ei gyfarparu a'i gynnal gan Weinidogion Cymru o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989 at y diben o gyfyngu ar ryddid plant;

(e) llety, neu lety o ddisgrifiad, a bennir am y tro **[**[F3]drwy reoliadau o dan adran 248(1)(f) o'r Cod Dedfrydu**]** (llety cadw ieuenctid at ddibenion gorchmynion cadw a hyfforddi);

mae i "mangre a gymeradwywyd" yr ystyr a roddir i "approved premises" gan adran 13 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007;

mae i "mechnïaeth mewn achos troseddol" yr ystyr a roddir i "bail in criminal proceedings" gan adran 1 o Ddeddf Mechnïaeth 1976.

(2) At ddibenion adrannau 185 i 187—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 23/02/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 188 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) mae person sy'n absennol dros dro o garchar neu lety cadw ieuenctid i'w drin fel pe bai'n cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid am gyfnod yr absenoldeb;

(b) mae person sy'n absennol dros dro o fangre a gymeradwywyd i'w drin fel pe bai'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd am gyfnod yr absenoldeb;

(c) mae person sy'n absennol dros dro o fangre arall y mae'n ofynnol i'r person breswylio ynddi fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol i'w drin fel pe bai'n preswylio yn y fangre am gyfnod yr absenoldeb.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 188(1) wedi eu hamnewid (2.4.2018) gan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (anaw 2), a. 188(1), **Atod. 3 para. 32**; O.S. 2017/1326, ergl. 2(3)(h), Atod. (ynghyd ag ergl. 6)

**F2** Geiriau yn a. 188(1)(ba) wedi eu mewnosod (20.3.2015) gan Criminal Justice and Courts Act 2015 (c. 2), a. 95(1), **Atod. 9 para. 32(5)**; O.S. 2015/778, ergl. 2(1)(c)

**F3** Geiriau yn a. 188(1) wedi eu hamnewid (1.12.2020) gan Sentencing Act 2020 (c. 17), a. 416(1), **Atod. 24 para. 304(2)** (ynghyd ag Atod. 27); O.S. 2020/1236, rhl. 2

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 188 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 188 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 23/02/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 188 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.